# ROBERTS, WILLIAM (1585 - 1665), esgob Bangor

**Enw:** William Roberts
**Dyddiad geni:** 1585
**Dyddiad marw:** 1665
**Rhiant:** Sisle Roberts (née Goodman)
**Rhiant:** Symon Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** esgob Bangor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Arthur Herbert Dodd

Ganwyd yn Maes Maen Cymro, Llanynys, mab Symon Roberts a Sisle, merch Edward Goodman, Rhuthyn. Aeth i Goleg Queens, Caergrawnt, Pasg 1605, a graddio'n B.A. yn 1609, M.A. yn 1612, B.D. yn 1621, D.D. yn 1626, a dyfod yn gymrawd ei goleg, 1611-30. Ordeiniwyd ef yn Peterborough yn 1616, a daeth yn brebendari Lincoln ac yn is-ddeon Wells, 1619-38. Trwy ddylanwad Laud, g r y cydolygai Roberts ag ef mewn materion eglwysig, cafodd ei ethol yn esgob yn 1637, a chaniatâwyd iddo ddal gyda'r esgobaeth fywiolaethau Llandyrnog a Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch, sir Ddinbych, a bod hefyd yn archddiacon Bangor ac yn archddiacon Môn. Am iddo, yng nghonfocasiwn Mai 1640, gytuno â'r canonau 'non-resistance' a'r 'clerical benevolence,' dygwyd cyngaws o 'impeachment' yn Nh 'r Cyffredin yn ei erbyn ef, ynghyd ag esgobion Llanelwy, Llandaf, a naw arall, 4 Awst 1641, a dewis Arthur Trevor yn un o'r rhai a oedd i'w diffynnu (16 Tachwedd); eithr trwy beri oedi ac oedi, a bod pethau eraill eisiau cael sylw, daeth yr achos i'w ddiwedd heb gael ei wrando (ym mis Rhagfyr). Yn ystod y Rhyfel Cartrefol rhoes loches ym Mangor i John Warner, esgob Rochester, a Brenhinwr nodedig o bybyr. Collodd ei swydd fel esgob o dan 'ordinance' 9 Hydref 1646 ac ymddengys iddo ymneilltuo i Llanelidan, sir Ddinbych. Ar 25 Mehefin 1649 gwnaeth drefniant yngl n â'i stad bersonol trwy dalu dirwy (yn ôl y chweched) o £66 10s., eithr ar 18 Tachwedd 1652 yr oedd ymysg y rhai a gyfrifid yn draeturiaid o dan yr ' Additional Ordinance ' i werthu stadau 'delinquents.' Gwerthwyd rhan o'r eiddo, eithr caniatâwyd iddo brynu'r gweddill yn ôl ar ôl talu dirwy ychwanegol o drydedd ran (£54) ar 24 Rhagfyr 1653. Pan ddaeth yr Adferiad cafodd ei esgobaeth a'i fywiolaethau yn ôl, a bu'n selog iawn gyda'r gwaith o adfer y gwasnaethau ac adnewyddu'r adeiladau ar ôl y diffyg arfer yng nghyfnod yr Interregnum. Bu farw yn Llandyrnog, 12 Awst 1665, a chladdwyd ef yno. Yn ei ewyllys gadawodd ganpunt yr un tuag at addurno côr yr eglwys gadeiriol a sefydlu ysgoloriaethau i fechgyn o'i esgobaeth yng Ngholeg y Queens ', Caergrawnt, a Choleg Iesu, Rhydychen, a deucant arall tuag at ymgeleddu y rhai a ddioddefodd gan y pla yn Llundain.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd**, (1891 - 1975)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*

J. Y. W. Lloyd, *History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog*, iii, 63-6

Venn, *Alumni Cantabrigienses*

*Calendar of the Committee for Compounding with Delinquents, etc., 1643–1660*, iii, 2045-6

*Calendar of the Committee for Advance of Money, 1642–56* (1888), i, 262

*The Journals of the House of Commons*, ii, 234-5

*The Journals of the House of Lords*, iv, 340-472

Firth a Rait, *Acts and Ordinances of the Interregnum, 1642–1660* (London 1911), ii, 634, 638

*Reports of the Historical Manuscripts Commission*, 7th R., 104

R. Newcome, *A memoir of Gabriel Goodman Dean of Westminster during forty years of the reign of Queen Elizabeth, the restorer of the wardenship of Ruthin with some account of Ruthin school, and the names of its most eminent scholars, etc* (1825), App. S


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 11271861

Wikidata: Q8017648

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu